OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 58

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016

## RHAN 3

Gweithdrefnau Ynghylch Ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio

### Cais a atgyfeirir i Weinidogion Cymru heb ddatganiad amgylcheddol

**11.**—(1) Pan fo cais wedi ei atgyfeirio i Weinidogion Cymru i gael ei benderfynu o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau i Weinidogion Cymru)(**1**), ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru—

(a) ei fod yn gais AEA;

(b) bod y datblygiad dan sylw—

(i) heb fod yn destun barn sgrinio neu gyfarwyddyd sgrinio; neu

(ii) yn achos cais dilynol, wedi bod yn destun barn neu gyfeiriad sgrinio cyn y rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r perwyl nad oedd yn ddatblygiad AEA; ac

(c) nad oes datganiad y cyfeirir ato gan y ceisydd fel datganiad amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau hyn yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r cais,

mae paragraffau (3) a (4) o reoliad 6 yn gymwys fel pe bai atgyfeiro'r cais yn gais a wnaed gan y ceisydd yn unol â rheoliad 5(7).

(2) Pan fo cais wedi ei atgyfeirio i Weinidogion Cymru i gael ei benderfynu, ac yr ymddengys i Weinidogion Cymru—

(a) ei fod yn gais AEA,

(b) nad yw paragraff (1)(b) yn gymwys; ac

(c) nad oes datganiad y cyfeirir ato gan y ceisydd fel datganiad amgylcheddol at ddibenion y Rheoliadau hyn yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r cais,

rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd bod cyflwyno datganiad amgylcheddol yn ofynnol a rhaid iddynt anfon copi o'r hysbysiad hwnnw i'r awdurdod cynllunio perthnasol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd yn unol â pharagraff (2) o fewn 21 diwrnod yn dechrau â'r dyddiad y cafwyd y cais neu unrhyw gyfnod hwy y gwneir yn ofynnol yn rhesymol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymwybodol bod unrhyw berson penodol yn cael ei effeithio neu yn debygol o gael ei effeithio gan y cais, neu â diddordeb yn y cais, ac sy'n annhebygol o ddod yn ymwybodol ohono drwy gyfrwng cyhoeddiad electronig, hysbysiad ar y safle neu drwy hysbyseb lleol, rhaid iddynt roi gwybod i'r ceisydd am unrhyw berson o'r fath.

(**1**) Diwygiwyd adran 77 gan Ddeddf 1991, adran 32, Atodlen 7, paragraff 18; Deddf Seilwaith 2015 (p. 7), adran 30(1) ac Atodlen 4, Rhan 2, paragraffau 2 ac 11(a), a gan O.S. 2014/2773 (Cy. 280), erthygl 3 ac Atodlen 1, paragraffau 1 a 2. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(5) Caiff ceisydd sy’n cael hysbysiad o dan baragraff (2) gadarnhau i Weinidogion Cymru, o fewn 21 diwrnod yn dechrau gyda dyddiad yr hysbysiad, y bydd datganiad amgylcheddol yn cael ei ddarparu.

(6) Os nad yw’r ceisydd yn ysgrifennu’n unol â pharagraff (5), nid oes gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i ymdrin â’r cais ac ar ddiwedd y cyfnod o 21 diwrnod rhaid iddynt hysbysu’r ceisydd nad oes unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd ynglŷn â’r cais.

(7) Pan—

(a) fo hysbysiad wedi ei roi o dan baragraff (2), a

(b) nad yw’r ceisydd yn cyflwyno datganiad amgylcheddol sy’n cydymffurfio â rheoliad 17(6),

rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ar y cais perthnasol dim ond drwy wrthod caniatâd cynllunio neu ganiatâd dilynol.